



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECAD6051C

Arwain y Dysgu (gyda SAC): beth, sut a pham ydw i'n addysgu?

Tystysgrif Addysg i Raddedigion gyda Statws Athro Cymwysedig (TAR)

Gwyddoniaeth a Thechnoleg (MAES DYSGU A PHROFIAD)

Lefel 6

30 Credyd

Yr Athrofa

2026-2027

Ailddilyswyd Hydref 2023 i dderbyn myfyrwyr cyntaf ym mis Medi 2024

1. MANYLION CYSWLLT

Rheolwr Rhaglen Ian Jones ac arweinydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg Lilian Martin
l.martin@uwtsd.ac.uk

2. EIN DISGWYLIADAU

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r rhaglen. Rydym yma i'ch helpu.

Dylech wneud y canlynol:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol
- Mynychu sesiynau a chymryd rhan ynddynt
- Ymddwyn yn gyfrifol
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Ymroi a chymryd rhan ym mhob sesiwn

Darllenwch [Reoliadau Myfyrwyr](#) y Brifysgol a Pholisi Ymgysylltu'r Athrofa.

3. AMCANION A DEILLIANNAU DYSGU

AMCAN(ION)

- Ennyn diddordeb darpar athrawon gydag ymagwedd feirniadol at sicrhau gwybodaeth effeithiol am y pwnc a chymhwyso addysgeg o ansawdd uchel, gan gynnwys yr egwyddorion addysgegol o wneud cysylltiadau, dysgu cyfunol a chreu cyfleoedd dysgu ystyrlon a dilyn.
- Datblygu darpar athro ymaddasol, gwybodus ac adfyfyriol sydd â hunaniaeth broffesiynol gadarn ac sydd wedi'i baratoi'n dda ar gyfer y gweithle addysg.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r darpar athrawon allu

- dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol ystod o lenyddiaeth ac ymchwil ar addysgeg a dysgu effeithiol;
- cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon i'w harfer eu hunain ac adfyfyrio ar effaith y dulliau mewn cymuned broffesiynol;
- dangos lefel uchel o uniondeb personol a phroffesiynol mewn perthynas â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth;

- datblygu rôl yr athro proffesiynol trwy fabwysiadu ymagwedd strategol at wella addysgu a dysgu ar lefel dosbarth, cyfnod neu adran, gan gymryd ymchwil a thystiolaeth o arfer effeithiol i ystyriaeth.

CYNNWYS DANGOSOL

- Adolygiad beirniadol o ddatblygiad polisi ac arfer addysgol yng Nghymru, gan gynnwys blaenoriaethau cyfredol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a'r arolygiaeth ynghyd â'u trefniadau i sicrhau newid.
- Adfyfrio, trafod a beirniadu effaith blaenoriaethau a mentrau cyfoes ar drefniadaeth ysgol gyfan a phrosesau datblygu ysgolion.
- Ystyriaeth o brosesau gwella ysgolion a yrrir gan faterion cyfoes i gefnogi gwelliannau mewn safonau dysgu ac addysgu.
- Archwiliad beirniadol o'r credoau athronyddol sy'n sail i amgylcheddau dysgu effeithiol mewn ysgolion e.e. gweledigaeth, datganiadau cenhadaeth, gwerthoedd ac ethos, a sut mae'r rhain yn cael eu sefydlu a'u cytuno gyda'r gymuned ehangach.
- Cyfle i ddangos cyfrifoldeb proffesiynol mewn perthynas â gweithio mewn system addysg ddwyieithog: er enghraifft, datblygu'r Gymraeg yn y cwricwlwm.
- Archwilio anghenion dysgwyr o gefndiroedd diwylliannol, ieithyddol, crefyddol ac economaidd-gymdeithasol amrywiol i sicrhau tegwch, a dangos gwerthfawrogiad y gall yr anghenion hyn newid mewn poblogaeth ysgol ddynamig.
- Datblygu'r nodwedd o fod yn rhan o gymuned gynhwysol o ymarferwyr ymholgar sy'n estyn y tu mewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac i'r gymuned lle mae'r dysgwyr yn byw eu bywydau, trwy gyfrannu'n rhagweithiol at ystod o gynulleidfaoedd a mynd i'r afael yn weithredol ag ymholi a chanfyddiadau pobl eraill.

4. Gwybodaeth asesu

DYRANIAD AMSER ASTUDIO

Mae o leiaf 30 awr ddysgu wedi'u trefnu ar gyfer y modiwl hwn.
120 diwrnod o Brofiad Addysgu Proffesiynol (PAP)

ASESU

Elfen Asesu 1 (ECAD6051C)

☐ Arholiad ysgrifenedig ☐ Gwaith cwrs ☒ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysoliad
Deialog Broffesiynol – Adolygiad SAC	Adolygiad diwedd PAP terfynol	100%

Asesu Statws Athro Cymwysedig (SAC)

Dangosir tystiolaeth o asesu elfen SAC y rhaglen drwy ddarpar athrawon yn arddangos yn llwyddiannus y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon a hwn yw'r pwynt asesu ar gyfer **ECAD6051 Arwain y Dysgu (gyda SAC): beth, sut a pham ydw i'n addysgu**. Mae'r safonau ar gael yma: <https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol>

Crynodeb o'r Asesiad

•

Math o weithgaredd	Canran
Arholiad ysgrifenedig	
Gwaith cwrs	
Ymarferol	100%
CYFANSWM	100%

**Bydd myfyrwyr nad ydynt yn cwblhau elfen SAC y rhaglen yn trosglwyddo o ECAD6051C i'r modwl ECAD6056C

Elfen Asesu 1 (ECAD6056C)

☐ Arholiad ysgrifenedig ☒ Gwaith cwrs ☐ Ymarferol

Dull asesu	Maint	Pwysoliad
Gwaith cwrs: Aseiniad	Ysgrifenedig (4000 o eiriau)	100%

5. Cynnwys y modwl

Caiff addysgeg effeithiol yn yr ystafell ddosbarth ei modelu'n benodol mewn darlithoedd a seminarau, gan alluogi hyfforddeion i brofi'r dulliau y bydd disgwyl iddynt eu rhoi ar waith yn eu haddysgu eu hunain. Bydd y rhan fwyaf o adnoddau'r rhaglen ar gael drwy Moodle; fodd bynnag, bydd gweithgareddau dysgu rhyngweithiol a chydweithredol yn defnyddio offer digidol megis Microsoft 365, [Teams](#), [OneNote](#) a Vevox, gan adlewyrchu'r defnydd effeithiol o dechnoleg i gefnogi dysgu ac ymgysylltu yn yr ystafell ddosbarth.

Mae sesiynau pwnc-benodol yn dod â Gwyddoniaeth, Cyfrifiadureg a Dylunio a Thechnoleg ynghyd er mwyn adlewyrchu'r cyfleoedd rhyngddisgyblaethol a gynigir gan Faes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae'r modiwl wedi'i gynllunio i sicrhau cydbwysedd rhwng dysgu proffesiynol ar y cyd a datblygiad pwnc-benodol, gan alluogi hunaniaethau disgyblaethol i gael eu cryfhau, tra'n elwa ar safbwyntiau ac arbenigedd meysydd cysylltiedig.

Mae taith ddysgu Semester 1 yn symud o ddealltwriaeth ddisgyblaethol ac addysgeg pwnc-benodol, drwy arsylwi proffesiynol a myfyrio beirniadol, tuag at integreiddio gwybodaeth bwnc, addysgu, asesu a chynhwysiant o fewn ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.

Dyddiad	Mewnbwn cyffredin	Sesiwn Gwyddoniaeth a Thechnoleg
7 Medi	Rheoli'r amgylchedd dysgu	Datblygu hunaniaeth broffesiynol ym maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Rheoli amgylcheddau dysgu arbenigol yn effeithiol a hyrwyddo diwylliannau dysgu diogel, pwrpasol a chynhyrchiol.
8 Medi	Addysgeg effeithiol	Egwyddorion addysgeg effeithiol mewn Gwyddoniaeth, Cyfrifiadureg a Dylunio a Thechnoleg, gan gynnwys gwybodaeth bwnc, cymhwyso ymarferol a dulliau dysgu sy'n seiliedig ar broblemau.
10 Medi	Egwyddorion y cwricwlwm a Chwricwlwm i Gymru 1	Defnyddio gwybodaeth ddisgyblaethol i lywio addysgu. Nodi gwybodaeth flaenorol, camsyniadau ac anghenion dysgu er mwyn cefnogi cynnydd ac asesu ymatebol.
11 Medi	Egwyddorion y cwricwlwm a Chwricwlwm i Gymru 2	Datblygu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol drwy ddysgu disgyblaethol. Gwerthuso cyfleoedd trawsgwricwlaidd dilys a phwrpasol.
22 Medi – Ar-lein	—	Esbonio, modelu a sgaffaldio dysgu. Cynllunio adnoddau a phrofiadau dysgu pwnc-benodol er mwyn cefnogi dealltwriaeth a chynnydd.
24 Medi	Cyflwyniad i gynllunio	Gweithdy cynllunio pwnc: trosi bwriadau'r cwricwlwm yn ddilyniannau dysgu cydlynol.
25 Medi	Egwyddorion cynllunio; myfyrio/gwerthuso; DA ar gyfer cynllunio	Nodweddion addysgu pwnc o ansawdd uchel. Beirniadu a mireinio gwaith cynllunio drwy fyfrio, gwerthuso a defnydd priodol o ddulliau a gefnogir gan ddeallusrwydd artiffisial (DA).
28 Medi	SAC/safonau; proffesiynoldeb; mentoriaid	Datblygu proffesiynoldeb pwnc. Deall arferion adrannol, cyfrifoldebau proffesiynol a gweithio ar y cyd mewn cyd-destunau arbenigol.

2 Hydref	Addysgu ymatebol – holi	Holi ar gyfer dysgu mewn Gwyddoniaeth, Cyfrifiadureg a Dylunio a Thechnoleg. Cynllunio a gwerthuso cwestiynau sy'n hybu meddwl, asesu a chynnydd.
5 Hydref	Dulliau o ddatblygu llythrennedd	Datrys problemau, meddwl disgyblaethol a chyfathrebu. Archwilio sut mae dysgwyr yn ymgysylltu â gwybodaeth bwnc ac yn ei mynegi.
Lleoliad	—	Ymholi proffesiynol ar waith. Arsylwi ar holi, arferion yr ystafell ddosbarth, addysgu disgyblaethol a dulliau adrannol o ymdrin â dysgu.
9 Hydref	Gwerthuso dysgu, gan gynnwys cynnydd	Gwerthuso dysgu a chynnydd o fewn pynciau arbenigol. Dadansoddi tystiolaeth o'r lleoliad er mwyn llywio ymarfer yn y dyfodol.
12 Hydref	Cynefin	Safbwyntiau beirniadol ar y cwricwlwm a gwybodaeth. Archwilio cynrychiolaeth, cynhwysiant a thegwch mewn addysg Gwyddoniaeth a Thechno

Mae Semester 2 yn mabwysiadu dull mwy unigolyddol, gan ymateb i gryfderau a meysydd i'w datblygu a nodwyd drwy ddysgu proffesiynol a'r lleoliad ysgol cyntaf. Mae'r dysgu'n dod yn fwyfwy hunangyfeiriedig, gan alluogi hyfforddeion i ymgysylltu â blaenoriaethau pwnc-benodol, addysgegol a phroffesiynol. Mae'r aliniad agos â'r modiwl Ymchwilio i Ymarfer yn cefnogi'r defnydd o ymholi ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn mynd i'r afael ag anghenion a nodwyd a gwella addysgu a dysgu.

Sylwer mai amserlen ddangosol yw hon ac y gellir ei diwygio yn ystod y flwyddyn academiaidd mewn ymateb i ofynion y rhaglen, lleoliadau a gofynion gweithredol. Dylid edrych ar CELCAT yn rheolaidd, gan ei fod yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen, gan gynnwys unrhyw newidiadau i ddyddiadau, amseroedd neu leoliadau sesiynau.

6. Tasgau Ac Arweiniad Asesu

Canllawiau Hanfodol:

[Course: Lleoliad TAR / PGCE Placement | Home](#)

Cymorth ychwanegol:

[Course: Datblygu Sgiliau Addysgwyr | Skills Development for Educators | Home](#)

7. Rhestr Ddarllen Ddangosol

[Online Resource List - ECAD6051](#) am y rhestr ddiweddaraf.

1. ADDITIONAL SUPPORT

Learning Support:

[Learning Support » Hub](#)

Wellbeing Support:

[Wellbeing Support » Hub](#)

Careers:

[Careers Service » Hub](#)